**Cyngor Tref Aberaeron**
**Polisi Hyfforddiant a Datblygu**

## Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn datgan fod gan gynghorau tref a chymunedol ddyletswydd i ystyried , o fis Mai 2022, hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff, a chyhoeddi cynlluniau hyfforddiant cyntaf erbyn mis Tachwedd 2022.

Dywed y Canllawiau Statudol "Nid yw'n fwriad ceisio sicrhau bod pob un cynghorydd o reidrwydd yn derbyn hyfforddiant ar yr un materion; y nod yn hytrach yw creu sefyllfa lle y mae gan y cynghorwyr fel grŵp, a'r staff fel corff, y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Rhodda hyn ystyriaeth i'r ffaith nad oes gan rai cynghorau cymuned ond un aelod o staff, y clerc, ac mae rhai cynghorau cymuned llai eraill yn rhannu eu clerc gydag un neu ragor o gynghorau cymuned eraill".

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru a bydd yn defnyddio'r cyfleoedd hyfforddiant a ddarperir gan y corff hwnnw.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r Clerc drwy gofrestru fel aelod o'r SLCC, ac yn manteisio ar adnoddau'r Gymdeithas honno.

## Nodau

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn cydnabod bod hyfforddiant a datblygu ar gyfer ei Aelodau a gweithwyr yn fuddsoddiad enfawr yn ei allu i draddodi gwasanaethau effeithiol, a bydd yn chwilio i greu diwylliant datblygiad parhaus.

*Cyffredinol*

Fe fydd yn:

1) Darparu adnoddau digonol i gyflawni ei nodau a chynnwys swm digonol o arian yn y gyllideb flynyddol.
2) Rhoi blaenoriaeth i'r gweithgareddau hynny sydd eu hangen i gwrdd â nodau ac amcanion y Cyngor.
3) Annog pob ffurf dysgu gan gynnwys hyfforddiant mewnol, ar-lein a mynychu cyrsiau.
4) Ad-dalu unrhyw wariant rhesymol wrth fynychu hyfforddiant ar ran,

neu a gymeradwyir gan y Cyngor Tref.

*Aelodau*

Fe fydd yn:

1) Darparu hyfforddiant cychwynnol ar ddechrau pob gweinyddiaeth. Bydd hwn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ar waith y cynghorau tref a chymunedol, rolau a dyletswyddau cynghorydd a'r côd ymddygiad.
2) Annog a chefnogi mynediad at gyfleoedd hyfforddi parhaus er mwyn ennill gwybodaeth fwy manwl ar destunau penodol a diweddariadau ar anghenion newidiol y Cyngor.

*Staff*

Fe fydd yn:

1) Darparu hyfforddiant i weithwyr newydd, a fydd yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol ar dermau ac amodau'r gyflogaeth, gwybodaeth am y Cyngor, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, ac iechyd a diogelwch.

2) Annog a chefnogi mynediad at gyfleoedd hyfforddiant parhaus er mwyn ennill mwy o wybodaeth ar destunau penodol a diweddariadau ar ddatblygiadau ac anghenion newidiol y Cyngor

3) Sicrhau bod cydraddoldeb ym mhob agwedd y cyfleoedd hyfforddiant a sicrhau darpariaeth adnoddau i'r gweithwyr mewn dull teg a chyfiawn, a pherthnasu at anghenion a adnabyddir.

4) Sicrhau bod system gwerthuso ar gyfer gweithwyr yn cyfeirio at yr anghenion hyfforddiant a datblygu a gosod targedau blynyddol, os yn gymwys.

5) Disgwyl i bob gweithiwr fynychu hyfforddiant a datblygu ble gwelir angen gan y Cyngor, gan gynnwys caffael ar gymwysterau perthnasol ble mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

*Gwirfoddolwyr*

Fe fydd yn:

1) Darparu cytundeb gwirfoddolwyr yn amlinellu materion allweddol, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant.
2) Darparu hyfforddiant perthnasol ar bynciau craidd e.e. iechyd a diogelwch, yn ogystal â materion penodol ar gyfer prosiectau gwahanol.

3) Defnyddio hyfforddwyr cymwys, yn fewnol ac yn allanol.

4) Sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn cyflawni lefel briodol o gymhwyster i weithredu tasg.

5) Darparu cefnogaeth a chymorth i wirfoddolwyr ar sail barhaus.